**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (LLANRHYSTUD, CEREDIGION) (FFORDD GYFYNGEDIG A THERFYN CYFLYMDER 40 MYA) 201-**

**DATGANIAD O'R RHESYMAU**

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er budd diogelwch ar y ffordd.

Bydd dwy groesfan heb eu rheoli newydd gydag ynysoedd croesi canolog yn cael eu gosod ar gefnffordd yr A487 ym mhentref Llanrhystud. Bydd un o'r croesfannau y tu allan i'r parth terfyn cyflymder 30 mya presennol. Er mwyn gwella diogelwch cerddwyr sy'n croesi'r gefnffordd, bydd y Gorchymyn arfaethedig yn dirymu'r Gorchymyn terfyn cyflymder 40 mya presennol. O ganlyniad, bydd rhan o'r A487 y mae'r terfyn cyflymder 40 mya yn gymwys iddi ar hyn o bryd yn dychwelyd i statws ffordd gyfyngedig a bydd y terfyn cyflymder yn dychwelyd i 30 mya yn rhinwedd presenoldeb goleuadau stryd, gan estyn hyd y darn o'r A487 y bydd y terfyn cyflymder 30 mya yn gymwys iddo.

Bydd y Gorchymyn arfaethedig hefyd yn ailosod y terfyn cyflymder 40 mya ar ddarn o'r A487 ym mhen gogledd-ddwyreiniol Llanrhystud.

**THE A487 TRUNK ROAD (LLANRHYSTUD, CEREDIGION) (RESTRICTED ROAD & 40 MPH SPEED LIMIT) ORDER 201-**

**STATEMENT OF REASONS**

The proposed Order is required in the interest of road safety.

Two new uncontrolled crossing points with central refuge islands will be installed on the A487 trunk road in the village of Llanrhystud. One of the crossing points will be outside the current 30 mph speed limit zone. In order to improve the safety of pedestrians crossing the trunk road, the proposed Order will revoke the existing 40 mph speed limit Order. Consequently, part of the A487 to which the 40 mph speed limit currently applies will return to restricted road status and the speed limit will revert to 30 mph by virtue of the presence of street lighting, thus extending the overall length of the A487 to which the 30 mph speed limit will apply.

The proposed Order will also re-impose the 40 mph speed limit on a length of the A487 at the north-eastern end of Llanrhystud.

